

Er chwilio'n ddyfal dros nifer o flynyddoedd a hynny ar hyd a lled Llundain nid wyf wedi llwyddo i ddarganfod unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y pulpud yma. Yn y gyfrol *John Penry* gan Samuel Williams a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1956 nodir mai yng Nghapel yr Annibynwyr yn Southwark yr oedd y pulpud. Nid yw'r enw hwn, sef Southwark Congregational Chapel, yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn ac mae'n ddigon posibl mai cyfeiriad at Gapel Union Street, Borough High Street, Southwark, ydyw. Fe geir yn yr *Evangelical Magazine* am 1862 adroddiad am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Genhadol Llundain a gynhaliwyd ym mis Mai y flwyddyn honno ac yng nghorff yr adroddiad cyfeirir at Gapel Union Street fel Southwark Congregational Chapel.

* * * *

Fy marn bersonol i yw mai ar gyfer y Memorial Church of the Pilgrim Fathers yn Buckingham Square, New Kent Road, Southwark, y bwriedid y pulpud. Y mae yna hanes diddorol i'r capel hwn. Adeiladwyd y capel, wedi llawer o drafferthion, yn 1864, yn dilyn llafur diflino y Dr John Waddington, Gweinidog Capel Union Street ers Awst 1846. Waddington oedd awdur y gyfrol *Surrey Congregational History* a gyhoeddwyd yn 1866 ac ynddi mae'n honni fod yna gysylltiad di-dor rhwng ei eglwys ef yn Union Street â'r cyfarfod o'r Ymwahanwyr a gynhaliwyd yn Southwark yn 1567. Y gynulleidfa hon, yn ôl Waddington, oedd yr Eglwys Annibynnol gyntaf un. Honna Waddington ymhellach fod yna gysylltiad uniongyrchol â'r gynulleidfa oedd yn cyfarfod yn nhŷ Robert Rippon yn 1592 hefyd. Dywedir mai Francis Johnson oedd bugail y gynulleidfa a John Greenwood yn athro. Hefyd 'roedd Christopher Bowman a Nicholas Lee yn ddiaconiaid, George Kniveton a Daniel Studley yn henuriaid, a Henry Barrowe a John Penry ymhlith yr aelodau. Nid yw Walter Wilson a gyhoeddodd ei *The History and Antiquities of Dissenting Churches and Meeting Houses in London, Westminster and Southwark* yn 1814 na Edward E. Cleal a gyhoeddodd *The Story of Congregationalism in Surrey* yn 1908 yn cytuno â Waddington ar fater y cysylltiad uniongyrchol.

* * * *

Dechreuodd Dr Waddington ar ei ymgyrch i adeiladu capel coffa addas yn 1850. Yr oedd y capel hwn i fod i gymeryd lle ei gapel ef yn Union Street. Yn anffodus cododd problemau ariannol yn fuan iawn a buont yn parlysu'r gwaith am flynyddoedd. Mewn

MWY AM BULPUD COFFA JOHN PENRY

gan MEURIG OWEN

adroddiad ar Gyfarfod Blynyddol y Gronfa Adeiladu a ymddengys yn rhifyn 19 Tachwedd 1852 o *The Patriot* gwelwn fod Waddington yn credu y byddai cyfraniadau i'r Gronfa yn dod o'r Unol Daleithiau ac o Gymru:

'It is known that their friends in New England proposed to send over a pillar of memorial in testimony of their interest in the martyrs and pilgrims associated with the Church in its early history. Perhaps their brethren in Wales would inscribe in one compartment of it the name of Penry, one of the martyrs of Southwark and the "morning star" of Cambria.'

Gosodwyd carreg sylfaen y Capel Coffa ar 29 Mai 1856 ac yna ar 29 Hydref 1856 gosodwyd Carreg Goffa i'r Tadau Pererin yn y Mayflower yn gweld y tir am y tro cyntaf. Ond rhwystrid y cynlluniau gan broblemau ariannol o hyd. Cododd yr adeiladwyr wysion yn erbyn y gweinidog a'r pwyllgor ar 9 Gorffennaf 1857! Ail lansiwyd yr apêl ar unwaith a daeth Samuel Morley a Benjamin Scott, y Siambren, sef prif swyddog ariannol Dinas Llundain, ac eraill i weithio dros y cynllun. Ymddangosodd yr adroddiad hwn yn yr *Evangelical Magazine* yn 1858:

'The work of raising the memorial place of worship for the Congregational church in Southwark, will now be resumed. Obstacles are removed, and it is stated that everything will be put on a sound basis, and that in a few months, it is expected, a permanent home will be provided for the people, who have had to seek a temporary place of meeting. The Lord Mayor, Aspley Pallat Esq., and W. Armitage Esq., are the trustees for the fund and take a special interest in the undertaking. The friends in this country, and in New England, continue to express their warmest sympathy, and their earnest desire to see the work completed.'

Mae'n amlwg i'r trafferthion barhau oherwydd ceir adroddiad pellach yn yr *Evangelical Magazine* yn 1861:

'A meeting was held at the Weigh-house Chapel, in connection with the movement for the erection of a church, in Southwark, to the memory of the Pilgrim Fathers. The chair was taken by the Rev. T. Binney, who called upon Mr Benjamin Scott, the City Chamberlain, to give an explanatory statement, from which it appeared that various liberal contributions had been promised. Resolutions in favour of the undertaking were submitted by the Rev. H. Richards, Dr. Vaughan, Dr. Patton (of New York), Kilsby Jones and Dr. Waddington.'

Ceir adroddiad arall yn 1863:

July 22, Southwark. The corner stone of the Pilgrim Fathers Memorial Church was laid by B. Scott Esq., Chamberlain. The Revs. P. H. Davids, G. Rose, Dr. Waddington (the Pastor), and J. Kilsby Jones also took part in the engagements. S. Morley Esq., presided at the evening meeting, when addresses were delivered by the Revs. J. De Kewer Williams, W. Tyler, H. Richard, W. A. Essery and W. Murphy.

Agorwyd y capel a'r adeiladu eraill yn swyddogol ar 25 Mai 1864. Ceir yr hanes yn rhifyn 28 Mai o'r *South London Chronicle*: *Memorial Church of the Pilgrim Fathers.*

The ceremony of opening a setting apart this building for the celebration of Divine worship took place on Wednesday last. The Church is situated at Beckenham Square, New Kent Road.

(Yna ceir hanes byr am yr eglwys.)

The opening services were conducted by the Rev. Samuel Martin, the Rev. W. Tyler and the Rev. Henry Allen.

Nid yw'r adroddiad byr a ymddangosodd yn rhifyn Gorffennaf o'r *Evangelical Magazine* yn datgelu llawer iawn mwy o wybodaeth ychwaith:

May 25, Southwark. The Memorial Church of the Pilgrim Fathers, for the church under the pastoral care of the Rev. Dr. Waddington, was opened, sermons being preached by the Revs. S. Martin and H. Allen. S. Morley Esq., presided at the afternoon meeting, supported by B. Scott Esq., Chamberlain, and many ministers and friends of the cause.

Yn anffodus ni chyfeirir at y pulpud yn unrhyw un o'r adroddiadau a methais ddarganfod unrhyw gyfeiriad at yr agoriad yn y *South London Press*. Adeilad urddasol hollol nodweddiadol o oes Victoria oedd y Capel Coffa ac erys nifer o luniau o'r tu allan iddo ar gof a chadw. Yn ogystal â'r garreg i gofio am y Tadau yn gweld y tir newydd ar 29 Hydref 1620 yr oedd yno garreg i gofio am Robert Browne, Francis Johnson, Henry Barrowe, John Greenwood a John Penry hefyd.

Un llun yn unig a welais o'r tu fewn i'r capel. Un bach yw hwnnw, ac er ei wneud yn fwy nid yw'n ddigon eglur i'n galluogi i gael syniad da o ffurf y pulpud. Beth bynnag, credaf mai llun yn dyddio o ddegawd cyntaf y ganrif hon ydyw ac erbyn hynny mae'n fwy na thebyg fod ffurf yr adeilad wedi newid cryn dipyn wrth iddo gael ei ehangu. Nid oes cyfeiriad at pulpud coffa i John Penry yn unrhyw un o'r amryw lyfrynau sy'n adrodd hanes yr eglwys sydd ar gael.

Cyn dechrau cau pen y mwdwl ar hyn o sylwadau mae'n werth nodi fod yna eglwys Annibynnol arall yn Southwark y dyldd cyfeirio ati mewn cysylltiad â John Penry. Eglwys Marlborough, Old Kent Road, yw'r eglwys dan sylw, yr eglwys y bu Henry Richard yn Weindog arni o 11 Tachwedd 1835 hyd 5 Mai 1850. Yr hyn sydd yn cysylltu'r eglwys hon â Penry yw'r ffaith fod yna garreg goffa wedi ei gosod ar wal yr eglwys yn 1894 ag arni'r arysgrif:

THIS TABLET Commemorated the Martyrdom at St. Thomas-a-Watering, Old Kent Road, of

JOHN PENRY, M.A., on May 29th 1593

He died for liberty of conscience

Fe gododd Richard Lewis fater dirgelwch Pulpud Coffa John Penry yn y rhifyn diwethaf o *Y Casglwr* gan ddyfynnu'n helaeth o gylchronau'r cyfnod ac egluro fod llun o'r pulpud ar gael (neu efallai gynllun neu argraff artist o bulpuad arfaethedig). Hyd yn hyn, nid wyf wedi darganfod unrhyw wybodaeth sy'n datrys y dirgelwch. Ond y mae un peth yn hollol sicr, sef bod pa fath bynnag o bulpuad oedd yn y Memorial Church of the Pilgrim Fathers ac yn Eglwys Marlborough wedi mynd yn lludw yn ystod y Rhyfel. Dinistriwyd yr adeiladu yn ystod cyrchoedd awyr 1940. Wedi'r Rhyfel adeiladwyd eglwys newydd yn Great Dover Street yn lle'r Capel Coffa. Agorwyd yr adeilad newydd ar 15 Hydref 1956 a gosodwyd arno gerrig coffa i gymeryd lle y rhai gwreiddiol a oedd wedi eu dinistrio neu wedi eu niweidio. Mae'r capel newydd hwn wedi cau bellach a phan ymwelais â'r adeilad yn ddiweddar gwelais fod yr enw 'Memorial Church of the Pilgrim Fathers' wedi ei ddileu oddi ar y plac uwchben y ddau ddrws. Defnyddir corff yr eglwys gan Al Anon Family Service, a'r gwelldd yn unedau preswyl. Tynnwyd y ddwy garreg goffa oddi ar y mur allanol hefyd ond wrth lwc maent wedi cael eu diogelu y tu mewn i'r adeilad. Ailadeiladwyd Eglwys Marlborough ar ôl y Rhyfel hefyd ond erbyn hyn caewyd yr Achos yno, dymchwelwyd y capel ac adeiladwyd yn ei le floc o fflatiau, JOHN PENRY HOUSE yw enw'r bloc! Cadwyd y cysylltiad â John Penry er fod y garreg goffa wedi diflannu. Mae'r cysylltiad â Penry wedi ei gadw mewn man arall hefyd, sef ar stryd fer ar ochr ogleddol yr Old Kent Road, heb fod yn bell o St. Thomas a Watering, a enwyd yn PENRY STREET yn 1953. Os nad oes pulpud coffa i'r merthyr o Gefn Brith yn Southwark mae'n deg nodi nad ydynt wedi ei anghofio ychwaith.